# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 60
24/05/21

## Dorcas yn cael ei hiacháu

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes
Morgan Bryn a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori




## Fersiwn Beibl.net



Yna yn Jopa roedd disgybl o'r enw Tabitha (Dorcas fyddai ei henw yn yr iaith Roeg). Roedd hi bob amser wedi gwneud daioni a helpu pobl dlawd, ond tua'r adeg yna aeth yn glaf, a buodd farw. Cafodd ei chorff ei olchi a'i osod i orwedd mewn ystafell i fyny'r grisiau. Pan glywodd y credinwyr fod Pedr yn Lyda (sydd ddim yn bell iawn o Jopa), dyma nhw'n anfon dau ddyn ato i ofyn iddo, “Plîs, tyrd ar unwaith!”

Aeth Pedr gyda nhw, ac wedi iddo gyrraedd dyma fynd ag e i fyny'r grisiau i'r ystafell. Roedd yr ystafell yn llawn o wragedd gweddwon yn eu dagrau yn dangos iddo'r mentyll a'r dillad eraill roedd Dorcas wedi'u gwneud iddyn nhw pan oedd hi'n dal yn fyw. Dyma Pedr yn anfon pawb allan o'r ystafell, ac yna aeth ar ei liniau a gweddïo. Yna trodd at gorff y wraig oedd wedi marw, a dweud wrthi, “Tabitha, cod ar dy draed.” Agorodd ei llygaid! A phan welodd Pedr eisteddodd i fyny. Gafaelodd Pedr yn ei llaw a'i helpu i sefyll ar ei thraed. Wedyn galwodd Pedr y credinwyr a'r gwragedd gweddwon yn ôl i mewn a dangos iddyn nhw fod Dorcas yn fyw.



Dyma'r newyddion yn mynd ar led drwy dre Jopa fel tân gwyllt, a daeth llawer iawn o bobl i gredu yn yr Arglwydd.

*Actau 9:36-42 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd Pedr yn teithio o gwmpas y wlad ac un tro aeth i ymweld â’r Cristnogion yn Jopa. Yno roedd gwraig o’r enw Dorcas. Roedd hi bob amser yn helpu’r bobl dlawd. Bu farw Dorcas tua’r un adeg ag yr oedd Pedr yn Jopa. Daeth dau ddyn ato ac fe ofynnon nhw iddo, “Plîs tyrd ar unwaith!” Aeth Pedr gyda’r ddau i gartref Dorcas. Aeth Pedr at Dorcas a gorchmynnodd iddi, “Cod ar dy draed.” Agorodd Dorcas ei llygaid a chododd ar ei thraed. Roedd pawb wedi rhyfeddu ac aeth y newyddion ar led drwy Jopa fod Dorcas wedi dod yn ôl yn fyw. Daeth llawer o bobl i gredu yn Nuw ac yn Iesu y diwrnod hwnnw.



# Cwestiynau i’w trafod



Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Pwy wyt ti’n ei adnabod sy’n arbennig o garedig? Sut maen nhw’n garedig?
2. Sut oedd Dorcas wedi helpu pobl dlawd?
3. Pam wyt ti’n meddwl fod ffrindiau Dorcas wedi nôl Pedr?
4. Beth wnaeth Pedr? Beth ddigwyddodd?

# Gweddi fer




O Dad, diolch i Ti dy fod yn gallu ateb gweddïau mewn ffordd anhygoel.
Plîs helpa fi i ymddiried ynot Ti gyda phopeth.
Amen.

# Stori i'w lliwio

# Dorcas

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Mae hanes Dorcas yn y Beibl yn ein hysbrydoli ni i ofalu am bobl dlawd. Beth fedra i ei wneud i'w helpu?



Ym mhentref glan y môr, Jopa, roedd Dorcas wastad yn brysur yn gwnïo cotiau i'w rhoi i wragedd gweddw a'u plant.



Roedd hi wrth ei bodd yn gofalu amdanynt, yn union fel y gwnaeth Iesu a dangosai hi gariad Duw tuag atynt drwy fod yn garedig ac yn barod i'w helpu.



Aeth Dorcas yn sâl a bu farw. Roedd ei ffrindiau'n cofio gymaint oedd hi wedi helpu eraill ac fel roedd hi wedi credu yn Iesu, Mab Duw.



Roedd Pedr, disgybl i Iesu, wedi iacháu dyn gwael oedd yn y dref gyfagos. Aeth ffrindiau Dorcas i weld Pedr a gofynnon nhw iddo ddod ar frys i iacháu Dorcas hefyd.



Aeth Pedr i Jopa a gweddïodd dros Dorcas, fel roedd Iesu wedi ei ddysgu i wneud. "Arglwydd Dduw, ti yn unig sydd â'r pŵer i ddod â Dorcas yn ôl o farw'n fyw."



Wrth i Pedr weddïo agorodd Dorcas ei llygaid ac eisteddodd i fyny. Diolchodd Pedr i Dduw am ateb ei weddi.



Roedd pawb mor hapus i weld Dorcas yn fyw ac yn iach. Roedd yn wyrth ac fe ddaeth llawer o bobl i ddilyn Iesu a helpu'r bobl dlawd yn dilyn atgyfodiad Dorcas.

# Sialensau

## Helpu'r tlawd

Beth am fynd ati i gasglu bag o fwyd i fynd i'r Banc Bwyd lleol?




## Person peg

Crea berson peg dillad a gwna ddillad ar ei gyfer gan ddefnyddio papur neu ddefnydd.





## Dillad sbâr

Edrycha trwy dy ddillad. Oes yna eitemau nad wyt ti wedi eu gwisgo ers amser maith? Beth am i ti eu casglu a'u rhoi mewn bag a mynd â nhw i'r siop elusen leol?

(Gwna'n siŵr dy fod yn cael caniatâd dy rieni cyn gwneud hyn.)

## Bod yn garedig

Beth am i ti wneud ymdrech arbennig i fod yn garedig gyda rhywun yr wythnos hon? Efallai y buaset yn gallu gofyn i rywun sydd heb ffrind i chwarae, rhoi dy dro di i wneud rhywbeth i rywun arall neu wneud gwely rhywun arall yn dy gartref.

Darganfydda fwy am brynu dillad sy'n cael eu gwneud gan weithwyr sy'n cael cyflog teg: https://www.fairtrade.org.uk/buying-fairtrade/clothes/

FAIRTRADE FOUNDATION

# Dolenni




Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=HMK3b6qJO1A

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/pKIE7y-ALv8








Cartŵn (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=UPr0O6hnwQ4


# Posau


Defnyddia'r cod i ddod o hyd i'r adnod.



Mae yna 9 gwahaniaeth rhwng y ddau grys-t. Fedri di ddod o hyd iddyn nhw?





## Gwir neu gau?



1. Dorcas ydy'r enw yn yr iaith Roeg am Tabitha.
2. Roedd Dorcas yn ddisgybl.
3. Roedd Pedr yn Nasareth pan fu farw Dorcas.
4. Daeth dyn at Pedr a gofynnodd iddo ddod ar unwaith.
5. Roedd Dorcas yn arfer gwneud dillad hardd.
6. Gweddïodd Pedr a chafodd Dorcas ei hiacháu.

| Gwir | Gau |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

*Mae'r atebion ar waelod y dudalen nesaf*

# Gweddi Greadigol

## Pobl dlawd heb ddillad

Defnyddia ddarnau o ddefnydd neu o bapur i greu crys t clytwaith. Meddylia am yr holl bobl dros y byd  nad oes ganddynt ddillad ac sydd angen help.




Gweddia drostyn nhw.



## Gweddi lein ddillad

**Byddi angen:**

- Llinyn
- Siapiau crys –t papur wedi eu torri allan
- Tâp gludiog (Sellotape)



**Beth i'w wneud:**

- Edrycha ar y label ar y dillad rwyt ti'n eu gwisgo. Ar y label, mae'n dangos ym mha wlad mae'r dillad wedi cael eu gwneud.
- Ysgrifenna enw'r wlad ar un o'r crysau-t papur.
- Lliwia'r crys-t a gwneud patrwm arno.
- Meddylia am y bobl sy'n gweithio'n galed i wneud dy ddillad.
- Diolcha i Dduw amdanyn nhw.
- Gofynna i Dduw eu helpu heddiw.
- Rho'r crysau-t papur yn sownd yn y llinyn gyda'r tâp gludiog, a hongian y llinyn yn rhywle y byddi'n ei weld.




**Gwir neu gau - atebion:** 1. Gwir   2. Gwir  3. Gau  4. Gau  5. Gwir  6. Gwir

# Chwilair

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | C | D | A | G | O | R | S | DD | T |
| D | W | A | L | T | U | D | E | R | C |
| D | U | E | N | W | G | T | F | T | D |
| A | P | W | DD | A | S | B | Y | W | I |
| G | L | A | S | I | A | W | LL | N | E |
| R | E | R | E | D | O | R | C | A | S |
| A | H | P | E | D | R | A | Y | N | U |
| U | D | A | LL | I | D | M | W | F | A |
| I | R | C | L | A | F | A | P | O | J |
| T | A | D | P | O | B | L | Y | N | W |

1. AGOR
2. ANFON
3. BYW
4. CLAF
5. CREDU
6. DAGRAU
7. DILLAD
8. DORCAS
9. EISTEDD
10. GWEDDIO
11. GWNEUD
12. HELPU
13. IESU
14. JOPA
15. MARW
16. PEDR
17. POBL
18. SEFYLL
19. TLAWD
20. TRAED

# Rysáit

## Dirdroadau Siocled (Chocolate Twists)

Mae’r rhain yn edrych fel y dirdroadau gwlân fyddai Dorcas wedi eu defnyddio i wneud dillad.



**Cynhwysion:**

- 1 paced o does pwff( puff pastry - yr un sydd wedi ei rolio allan yn barod)
- Taeniad ( spread) siocled neu’r un â chnau cyll os ydy’n well gennyt yr un hwnnw
- 1 wy ar gyfer sglein
- Taenelliad ysgafn o siwgr gronynnog

**Dull:**

1. Agora’r toes pwff allan gan ddefnyddio’r papur gwrthaim sydd yn y paced. Bydd hyn yn stopio ‘r toes rhag glynu i’r arwynebedd. Yna taena’r taeniad siocled neu gnau cyll yn hael dros y toes pwff gan adael border o’i gwmpas.
2. Nawr rholia’r toes, ar ei hyd, dros y taeniad, 3 neu 4 gwaith a'i dorri yn ei hanner.
3. Gan adael tamaid bach heb ei dorri ar y top, torra bob darn o’r toes pwff o bron y top i’r gwaelod. Fe allet ti ddefnyddio olwyn torri pitsa i wneud hyn os oes gennyt ti un.
4. Pletha ddau stribed i greu dirdroad. Gelli wneud hyn drwy symud un darn dros y llall nes i ti gyrraedd y pen. Pinsia’r ddau ben at ei gilydd.
5. Yna torra’r darn bach sydd dal yn sownd a phinsia’r ddau ddarn rheini at ei gilydd hefyd.
6. Trosglwydda’r dirdroadau i’r hambwrdd pobi sydd wedi ei leinio â phapur gwrthsaim. Fe allet ti ddefnyddio’r papur gwrthsaim ddaeth gyda’r toes pwff yn y paced os ydy o dal yn gyfan.
7. Cura’r wy mewn cwpan a brwsia ychydig ohono dros y dirdroadau er mwyn eu cael yn frown euraidd.Yna ysgeintia ychydig o siwgr gronynnog drostynt.
8. Poba’r dirdroadau siocled mewn popty sydd wedi cyrraedd gwres o 180 gradd canradd (350 gradd F) am 15 - 20 munud nes eu bod yn frown euraidd ac yn hyfryd. Tynna nhw o’r popty a gadael iddynt oeri am ychydig. Fe allet dorri un dirdroad yn bedwar a bydd hwnnw’n wledd amheuthun i un person yn unig!



# Gemau

## ‘Pictionary’ gwlân



**Byddi angen:**
- Edafedd gwlân neu linyn
- Rhestr o eiriau – hosan, crys-t, gwely, grisiau, deigryn, traed, llaw, dyn, trowsus, sgert
- Carped neu ddarn o ffabrig

**Sut i chwarae:**
- Mae pob chwaraewr yn cael tro i geisio creu llun o air gan ddefnyddio’r edafedd (neu’r llinyn). Mae’n haws creu’r llun ar garped neu ffabrig fel nad ydy’r edafedd yn llithro i bob cyfeiriad.
- Mae’r chwaraewr sy’n dyfalu beth ydy’r llun gyntaf yn ennill pwynt.



## Gêm y lindysyn

**Byddi angen:**
- Hen bapur newydd
- Tâp gludiog (Sellotape)
- 3 neu 4, neu fwy o chwaraewyr.

**Sut i chwarae:**
- Tynna dudalennau’r papur newydd oddi wrth ei gilydd a’u gosod fel bod un hanner bob tudalen ar ben y dudalen nesa’.
- Defnyddia’r tâp gludiog i ddal y tudalennau wrth ei gilydd.
- Rho’r dudalen olaf yn sownd yn y dudalen gyntaf i wneud cylch mawr o bapur newydd. Mae angen bod ddigon mawr i’r chwaraewyr sefyll y tu mewn i’r cylch.
- Unwaith mae’r chwaraewyr yn sefyll y tu mewn i’r cylch, mae pawb yn cerdded ymlaen yn araf gan basio’r papur newydd dros eu pennau.
- Pa mor bell allwch chi fynd heb dorri’r papur?

# Canu

Does dim byd sy'n amhosibl i Dduw;
holl bwerus, hollalluog Dduw.
Os bydd trafferthion yn dod,
does dim angen i ofn fod
achos does dim byd sy'n
amhosibl i Dduw.



Methu dal pysgod - does dim byd sy'n amhosibl;
Gwin mewn gwledd yn darfod - dim byd sy'n amhosibl;
Pum mil angen bwyd - dim byd sy'n amhosibl;
Dyn yn methu gweld - dim byd sy'n amhosibl;
Disgyblion mewn storm - dim byd sy'n amhosibl;
Dorcas wedi marw - dim byd sy'n amhosibl;
Pedr yn y carchar - dim byd sy'n amhosibl;
Iesu yn y bedd - dim byd sy'n amhosibl, NA!

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/pKIE7y-ALv8
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes: ahughes@saintygymuned.org